Y Cyngor Gwyddoniaeth yn lansio ymgynghoriad ar safonau ar gyfer tystiolaeth trydydd parti

Rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl bolisïau, penderfyniadau a chyngor yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r dadansoddiad gwyddonol gorau sydd ar gael, o ystod o wahanol ffynonellau. Nod yr egwyddorion a'r canllawiau yw crynhoi disgwyliadau ar gyfer safon y dystiolaeth a anfonir atom gan drydydd partïon sydd y tu allan i brosesau safonol, ac amlinellu'r ffordd y bydd y dystiolaeth honno'n cael ei hasesu.

Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg am bedair wythnos rhwng 22 Mawrth 2021 a 22 Ebrill 2021.

Ymateb i ymgynghoriad y Cyngor Gwyddoniaeth

Os hoffech chi gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn a rhannu eich barn, ewch i wefan Cyngor Gwyddonaieth yr ASB.

Sylwch fod yn rhaid dilyn prosesau penodol ar gyfer awdurdodi cynhyrchion wedi'u rheoleiddio. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein tudalennau gwe ar roi cynnyrch wedi'i reoleiddio ar y farchnad.